# Menter y Tŵr Cyf, Pwllheli

## Ymgynghorydd Datblygu (Incwm a Digwyddiadau)

## Cyfnod Datblygu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

### Disgrifad swydd

**Math o gytundeb:** Llawrydd

**Lleoliad gwaith:** O gartref, bydd disgwyl mynychu rhai cyfarfodydd gyda'r nos a digwyddiadau gyda'r nos a phenwythnos

**Oriau cytundeb: 15 – 21 awr yr wythnos (yn amrywio bob wythnos yn ddibynnol ar y rhaglen waith)**

**Cyfnod cytundeb:** Medi 2025 – Gorffennaf 2026

**Sut i wneud cais:** Anfonwch CV a llythyr blaen yn nodi eich diddordeb yn y swydd, eich sgiliau a phrofiad at pwyllgorytwr@gmail.com. Dylid cynnwys eich cyfradd tâl dyddiol.

**Dyddiad cau derbyn ceisiadau: 5yh, Dydd Gwener 12fed Medi 2025.**

**Cefndir**

Cymdeithas Budd Cymunedol yw Menter y Tŵr, sefydlwyd yn Medi 2023 er mwyn achub ac adfywio adeilad hanesyddol Y Tŵr ar Stryd Fawr Pwllheli. Trwy ymgyrch cyfranddaliadau cymunedol llwyddiannus, llwyddwyd i brynu'r adeilad ac mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i'w adnewyddu a'i ddatblygu i fod yn hwb economaidd, diwylliannol a chymdeithasol.

Prif amcanion Menter y Tŵr:

• Ailagor adeilad fel tafarn, gwesty, bwyty, a chanolfan gymunedol.

• Creu llwyfan ar gyfer gweithgareddau celfyddydol, addysgol a chymdeithasol.

• Cefnogi busnesau lleol, hybu cydweithio cymunedol a chreu cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a gwaith.

• Hybu twristiaeth gynaliadwy a chryfhau economi'r Stryd Fawr a thref Pwllheli.

Gweler rhagor o wybodaeth am gefndir y prosiect ar y wefan - https://www.ytwr.cymru

**Pwrpas y swydd**

Mae'r swydd hon yn cael ei hariannu trwy gyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cyfnod Datblygu Menter Y Tŵr. Pwrpas y rôl yw cefnogi'r fenter yn ystod y cyfnod hwn. Bydd deiliad y swydd yn cynllunio a threialu cyfleoedd busnes a chyfleoedd cynhyrchu incwm er mwyn pennu'r model gweithredu mwyaf addas ar gyfer Y Tŵr, sy'n hanfodol i'r cynllun busnes terfynol. Bydd yn gyfrifol am drefnu cyfres o ddigwyddiadau peilot, ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol, gan sicrhau bod potensial llawn Menter y Tŵr yn cael ei wireddu ac yn cwrdd ag anghenion lleol.

**Atebol i**: Rheolwr Prosiect a Phwyllgor Rheoli Menter y Tŵr Cyf

**Prif ddyletswyddau**

- Dylunio a threialu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau dros gyfnod o 10 mis, gan asesu pa rai sy'n gweithio'n dda ac yn cynhyrchu incwm i'r fenter.
- Cydweithio gyda'r Ymgynghorydd Monitro a Gwerthuso i sicrhau bod y digwyddiadau a'r gweithgareddau yn ystod y Cyfnod Datblygu yn cael eu gwerthuso ac adnabod gwersi i lywio'r cynllun busnes terfynol a'r model gweithredu.
- Cydweithio gyda'r ymgynghorwyr fydd yn datblygu cynllun gweithgaredd a chynllun dehongli ar gyfer y fenter, drwy drefnu digwyddiadau ymgysylltu gyda'r gymuned a rhanddeiliaid, gan sicrhau bod y dogfennau allweddol hyn yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad â'r gymuned a rhanddeiliaid.
- Cyfleu a hyrwyddo gweledigaeth ac amcanion Menter y Tŵr i'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Cronfa Treftadaeth Y Loteri Genedlaethol drwy annog mwy o bobl i fod ynghlwm â threftadaeth ac yn ymgysylltu gyda'r Tŵr.
- Gweithio yn rhan o dîm bychan gan rannu cyfrifoldebau ac ymgymryd â dyletswyddau eraill fel bo angen er mwyn cwrdd â gofynion y Cyfnod Datblygu.

**Profiad a sgiliau dymunol:**

- Profiad o drefnu digwyddiadau cymunedol neu ddiwylliannol.
- Profiad o greu a phrofi ffynonellau incwm i gefnogi prosiect.
- Sgiliau cyfathrebu cryf yn Gymraeg a Saesneg
- Profiad o gasglu adborth a gwerthuso gweithgareddau.
- Sgiliau TG da, gan gynnwys defnyddio pecynnau Microsoft Office a meddalwedd tebyg.

**Mae'r gallu i weithio a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.**

**Manyleb y Person:**

| | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| **Addysg /Cymwysterau** | | • Cymhwyster lefel gradd mewn maes briodol. |
| **Gwybodaeth / Profiad** | • Profiad o ddatblygu prosiect(au)<br>• Profiad o drefnu digwyddiadau<br>• Profiad o weithio gyda amrediad eang o bartneriaid.<br>• Profiad o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer marchnata gwasanaeth neu fusnes. | • Profiad o weithio ar brosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol<br>• Profiad o drefnu calendr digwyddiadau/ gweithdai/ diwrnodau agored.<br>• Profiad o ddatblygu/cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol (fel swyddog neu gwirfoddolwr) |
| **Sgiliau** | • Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg<br>• Y gallu i gynrychioli Menter y Tŵr yn ddeallus ac yn hyderus mewn rhwydweithiau allanol.<br>• Yn fedrus yn y defnydd o dechnoleg gwybodaeth.<br>• Y gallu i weithio'n hyblyg ac i berfformio'n dda o dan bwysau.<br>• Yn meddu ar hunan gymhelliad, y gallu i weithio ar eich menter eich hun, a defnyddio'ch amser yn effeithiol.<br>• Parodrwydd i dderbyn hyfforddiant perthnasol yn ôl y galw. | • Yn meddu ar drwydded yrru ddilys gyfredol ac â defnydd cerbyd<br>• Sgiliau datblygu cymuned/gwaith cymunedol |
| **Agweddau** | • Brwdfrydedd dros weld ffyniant y fenter er lles y gymuned ac ardal. | |